NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Beta dinutuximab i drin neuroblastoma

22 Awst 2018

Mae Beta dinutuximab (Qarziba) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer niwroblastoma risg uchel mewn pobl 12 mis oed o leiaf os:

- yw eu clefyd wedi ymateb i gemotherapi cychwynnol o leiaf yn rhannol
- ydynt wedi cael cemotherapi dos uchel a thrawsblaniad bôn-gelloedd
- nad ydynt wedi cael triniaeth â chyffur imiwnotherapi gwrth-GD2

Os nad yw'r person yn gymwys i gael beta dinutuximab, ond ei fod eisoes yn ei gymryd, dylai allu parhau nes y bydd ef/hi (neu'r rhiant neu'r gofalwr) a'i feddyg yn penderfynu ei bod yn iawn iddo roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Grŵp Canser a Lewcemia Plant, 0116 252 5858
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Neuroblastoma y DU, 0208 940 4353
- Solving Kids' Cancer, 0207 284 0800

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3069-2

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights